

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd

a gynhaliwyd yn Aberystwyth

Ddydd Gwener, 22 Gorffennaf 2016

Presennol:

Ymddiriedolwyr

Rhodri Glyn Thomas, Llywydd	Colin R. John, Trysorydd	Iwan Davies
Phil Cooper	Susan Davies	
Roy Roberts	Hugh Thomas	
Dyfrig Jones	Liz Siberry	

Tîm Gweithredol

Linda Tomos	Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
David Michael	Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol
Pedr ap Ilywd	Cyfarwyddwr Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus

Staff

Carol Edwards	Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
Annwen Isaac	Ymgynghorydd Adnoddau Dynol
Mererid Jones	Pennaeth Cyllid a Menter

Hefyd yn bresennol:

Mary Ellis	MALD
Kate Clark	MALD
Doug Jones	Cyngor Partneriaeth
Siân Thomas	Cyngor Partneriaeth

Adran 1

1.1 Croeso'r Llywydd ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Llywydd, Rhodri Glyn Thomas, bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod. Agorodd y Llywydd y cyfarfod drwy wneud y datganiad canlynol:

“Yn dilyn y refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd fis yn ôl ymddengys bod yr holl sylw yn troi yn awr at ail-ddiffinio Prydain ar ffurf ffederal. Os yw Cymru, yn unol â

dymuniad Prif Weinidog Cymru, am ddatblygu ei hunaniaeth ei hun o fewn y wladwriaeth ffederal hon mae angen i'w sefydliadau cenedlaethol chwarae rhan ganolog yn nhwf y genedl.

Er pwysiced y sefydliadau cenedlaethol eraill yn y broses yma mae angen cydnabod bod y Llyfrgell Genedlaethol yn gwbl unigryw. Y Llyfrgell yw ceidwad gorffennol y genedl, yn y fan hyn y mae ein presennol yn cael ei gofnodi a dyma hefyd lle gallwn ganfod yr ysbrydoliaeth ar gyfer ein dyfodol".

Nid mater o drefn wleidyddol yn unig yw creu gwladwriaeth federal, mae angen i'r pedair gwlad ddatblygu ac amlygu eu hunaniaeth. Gellid dadlau bod Gogledd Iwerddon a'r Alban wedi gwneud hyn i raddau llawer iawn mwy na Chymru. Os na fydd arwahanrwydd Cymru yn eglur bydd yn ddim mwy nag atodiad i Loegr a byddwn yn dychwelyd at y disgrifiad ystrydebol hwnnw "ar gyfer Cymru gweler Lloegr.

Y Llyfrgell Genedlaethol yw'r allwedd i droi dyheadau gwleidyddol yn realiti ac i ganiatáu i Gymru sefyll ochr yn ochr â'r gwledydd eraill fel rhan o'r Deyrnas Unedig ar ei newydd wedd."

Ymddiheuriadau

Roedd Roy Evans, Huw Williams, Arglwydd Aberdâr a Richard Houdmont wedi ymddiheuro am eu habsenoldeb.

1.2 Datgan buddiannau

Dim buddiannau wedi eu datgan.

1.3 Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 22 Ebrill 2016

Nododd Susan Davies gywiriadau i'r cofnodion o dan 1.3 a 3.7. Dylai'r cofnodion ddarllen fel a ganlyn:

1.3 "Cadarnhaodd Susan Davies fod y datganiad yma yn gywir yn ymarferol o dan y darpariaethau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn y Siarter a'r Statudau cyfredol, pan gafodd Llys y Llywodraethwyr ei ddisodli gan y Corff Ymgynghorol. Cytunodd Huw Williams gyda'r datganiad yma."

3.7 "Bydd y broses yn cael ei rhedeg ar y cyd gan y Llyfrgell a Llywodraeth Cymru. Bydd penodiad yr Is-lywydd ac un Ymddiriedolwr yn cael ei wneud gan Weinidogion mewn ymgynghoriad gydag Ymddiriedolwyr y Llyfrgell, tra bydd y ddau Ymddiriedolwr arall yn apwyntiadau gan y Llyfrgell, yn unol â Siarter, Statudau a Rheoliadau 'r Llyfrgell. Trafodwyd y broses apwyntio gan yr Aelodau a'r pwysigrwydd o sicrhau ymgynghori priodol gyda'r Ymddiriedolwyr yn achos apwyntiadau gan y Gweinidog."

Cytunwyd y byddai'r cofnodion yn cael eu cywiro a'u cylchredeg i'r Aelodau ar e-bost.

Gweithred: Carol i gywiro'r cofnodion a'u cylchredeg ar e-bost i'r Aelodau.

Adran 2 Materion “byw” ac angen penderfyniadau

2.1 Corff Ymgynghorol

Cyflwynwyd papur gan Pedr ap Llwyd yn ymwneud â strwythur, aelodaeth a chylch gorchwyl y Corff Ymgynghorol, fel y mae, gydag argymhelliad fod yr Aelodau'n caniatáu i'r Tîm Gweithredol mewn ymgynghoriad â Dr Susan Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad i ddatblygu papur opsiynau ynghylch dyfodol y Corff. Cytunwyd â'r argymhelliad a gofynnwyd i Dr Susan Davies ddarparu adroddiad cynnydd ar y mater hwn - ynghyd ag opsiynau, os yn bosibl - i gyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd.

2.2 Swydd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd

Nododd y Llywydd fod yr Aelodau wedi cytuno i ymestyn cytundeb Linda Tomos hyd ddiwedd Mawrth 2018, a hynny ar delerau hyblyg ar y ddwy ochr. Ystyr hynny yw y gallai'r naill ochr neu'r llall ddirwyn y cytundeb i ben unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwn. Nodwyd y byddai hyn yn rhoi sefydlogrwydd i'r Llyfrgell wrth fwrw ymlaen â'i chynlluniau, a diolchodd y Llywydd i Linda am fodloni i aros ymlaen.

Roedd Linda hithau'n ddiolchgar i'r Llywydd ac i'r Ymddiriedolwyr am eu hymddiriedaeth, a chefnogaeth y staff yn ogystal: roedd hi'n frainc medru aros ymlaen a chyflawni'r swydd am gyfnod pellach.

Adran 3 Gwybodaeth a diweddariadau

3.1 Penodi Is-lywydd ac Ymddiriedolwyr

Diolchodd Linda i Lywodraeth Cymru am eu cydweithrediad i gytuno y dylid aros tan fis Medi cyn hysbysebu'r swyddi gwag ar gyfer Is-lywydd ac Ymddiriedolwyr. Derbyniodd yr Aelodau'r penderfyniad yma, ond nododd Susan Davies fod y Statudau yn nodi y dylid penodi Is-lywydd newydd o fewn chwe mis. Cytunodd Linda i gadw hyn mewn cof.

3.2 Adroddiad Uchafbwyntiau Adrannau a'r Cyfarwyddiaethau

Nid oedd gan yr Aelodau sylwadau ar gynnwys yr Adroddiad Uchafbwyntiau Adrannau a'r Cyfarwyddiaethau.

3.3 Diweddariad ar y Cynllun Marchnata

Nododd Linda Tomos fod nifer o weithgareddau ar y gweill gan y Llyfrgell, ac y byddai cynllun chwe mis wedi ei baratoi erbyn mis Medi ynghyd â Strategaeth Ddrafft.

3.3.1 Dadansoddiad Ymgyrch Cadw mewn Cysylltiad – adroddiad ar Gam 1

Roedd Richard Houdmont wedi anfon sylwadau ymlaen llaw am yr ymgyrch, a diolchodd Linda iddo yn ei absenoldeb. Awgrymodd Linda y dylid ail-ymgynnull yr Is-grŵp Marchnata ym mis Medi i drafod drafft o'r Strategaeth Marchnata, i lunio opsiynau i'w cyflwyno i'r Bwrdd yn eu cyfarfod nesaf.

Cafwyd nifer o sylwadau gan yr Aelodau, yn arbennig ynglŷn â'r data sy'n ymddangos yn yr adroddiad. Dylid edrych ar y data sy'n cael eu casglu yn y meysydd allweddol e.e. mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru. Awgrymodd y Llywydd y dylai Phil Cooper a Richard Houdmont weithio gyda Linda i edrych ar y data, a nododd Iwan Davies ei fod yntau'n barod i gydweithio gyda'r grŵp i edrych ymhellach ar y data.

Cytunodd yr Aelodau i'r awgrym yma.

Gweithred: Trefnu cyfarfod o'r Is-grŵp Marchnata ym mis Medi i drafod drafft o'r Strategaeth Marchnata

3.3.2 Adroddiad Monitro'r Wasg Pressdata Ebrill – Mehefin 2016

Tynnodd Linda sylw'r Aelodau mai dim ond sylwadau positif a oedd wedi ymddangos yn y wasg am y cyfnod diwethaf, a bod hynny i'w groesawu, ac roedd yn braf gweld fod y Llyfrgell wedi cael cryn dipyn o sylw ar y teledu am yr un cyfnod, a bod y Llyfrgell yn cael ei amlygu yn fwyfwy yn ddiweddar.

Nododd Liz Siberry y dylid ystyried defnyddio technoleg i ganiatáu mynediad o bell i ddigwyddiadau yn y Llyfrgell e.e. Periscope ar gyfer digwyddiadau byw. Nododd Dyfrig Jones ymhellach y dylid manteisio ar gysylltiadau gyda'r Brifysgol i gydweithio gyda'u myfyrwyr Adran Ffilm a Theledu i roi profiad gwaith iddynt a fyddai'n dwyn sylw hyrwyddo i'r Llyfrgell yr un pryd.

3.4 Materion yn ymwneud â'r adeilad

Mae'r cais am arian cyfalaf yn parhau i gael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru, felly nid oes mwy i'w adrodd ar hyn o bryd. Byddai oblygiadau peidio â chael y cyllid hwn i faterion iechyd a diogelwch yn bellgyrhaeddol iawn.

3.5 Dangosyddion Cyflawni Ebrill – Mehefin 2016

Nodwyd bod y dangosyddion cyflawni am Chwarter 1, Ebrill - Mehefin, i'w gweld yn ardal neilltuedig yr Aelodau. Anogwyd yr Aelodau i edrych ar rhain a chyfeirio unrhyw gwestiynau at Linda Tomos yn y lle cyntaf. Byddai'r Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad yn rhoi sylw i'r dangosyddion hyn.

3.6 Adolygiad Llywodraethiant Swyddfa Archwilio Cymru

Cafwyd trafodaeth yn y sesiwn gaeedig ar gyflwyniad Swyddfa Archwilio Cymru i'r Aelodau. Mi fydd y Swyddfa yn paratoi adroddiad drafft, a bydd cyfle i'r Ymddiriedolwyr roi eu sylwadau ar hwn cyn y bydd drafft pellach ohono'n cael ei baratoi.

3.7 Rhaglen Cyfuno

Roedd Linda Tomos yn awyddus i amlygu pwysigrwydd y Rhaglen Cyfuno, ac i nodi bod y Llyfrgell yn canolbwyntio ar Wynedd, Sir Caerfyrddin, Caernarfon, Bangor, Trimsaran a Llanelli.

3.8 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Roedd Linda Tomos a Pedr ap Llwyd wedi cyfarfod â Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar 19 Gorffennaf. Adroddwyd iddo fod yn gyfarfod buddiol a chadarnhaol iawn. Yn

gyffredinol, ymatebodd y Comisiynydd yn dda iawn i gynlluniau'r dyfodol a gwelodd ei hun yn medru cefnogi'r Llyfrgell yn ei hymdrechion i ymateb ymhellach i ofynion y Ddeddf. Bydd Sophie Howe yn rhoi cyflwyniad i'r Bwrdd ym mis Tachwedd.

Adran 4 Materion ariannol

4.1 Adroddiad Cyllidebol hyd 30.06.16

Cyflwynodd Mererid Jones yr adroddiad cyllidebol hyd at 30 Mehefin 2016, gan nodi fod gwarged o £151,159 gan y Llyfrgell oherwydd gwariant isel ar bethau sydd ddim yn gostau staffio, ac yn £14k o dan y gyllideb ar hyn o bryd.

Mae'r Grant Pwrcasu yn parhau i achosi pryder mawr, a bydd angen i'r Llyfrgell gael penderfyniad yn fuan ynglŷn â hyn. Cytunodd Linda y byddai'n parhau i roi pwysau ar y Llywodraeth i ddod i benderfyniad ynghylch y Grant.

Mynegwyd pryder ynglŷn â rhent y Comisiwn Brenhinol. Mae'r Llyfrgell wedi derbyn £250k gan Lywodraeth Cymru yn 2015 - 2016, oedd yn cynnwys £100k o rent y Comisiwn. Nid yw'n glir os bydd y Llyfrgell yn derbyn rhent ychwanegol yn 2016 - 2017, a chytunodd Linda i gael hyn yn ysgrifenedig erbyn cyfarfod nesaf y Bwrdd.

Gweithred: Linda i gael cadarnhad ysgrifenedig ynglŷn â rhent y Comisiwn am 2016 - 2017

Cafwyd trafodaeth ymhlith yr Aelodau ynglŷn â chodi arian am rai gwasanaethau, a nododd Linda fod y Tîm Gweithredol eisoes yn ymchwilio i godi tâl am ymholiadau ymhlith pethau eraill gan edrych ar beth mae sefydliadau eraill yn eu gwneud, ond nodwyd bod angen pwysu a mesur yr angen i achub ar bob cyfle i godi incwm gyda'r lefel o wasanaeth a ddisgwylir ac a ellir ei ddarparu. Nododd Linda y bydd drafft o Strategaeth Codi Incwm yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd fydd yn edrych ar yr holl opsiynau o ran codi incwm am wasanaethau.

Nodwyd y sefyllfa ariannol, a'r angen i gadw llygad manwl ar y gyllideb.

Gweithred: Paratoi drafft o Strategaeth Codi Incwm i'w gyflwyno yng nghyfarfod mis Medi o'r Bwrdd

4.2 Y diweddaraf ar Gyllideb 2016 – 2017

Cyflwynodd Mererid Jones yr adroddiad rhagolygon ariannol tymor canolig gan dynnu sylw'r Aelodau at yr amcanestyniadau ar dudalen 5 sy'n rhagdybio cyllideb statig, gyda rhagdybiaeth o doriadau o 1%, 2% a 5%. Bydd yn rhaid aros tan yr Hydref i weld beth fydd y gyllideb, ond mae'r ffigurau yma yn dangos pa mor heriol yw'r sefyllfa ariannol.

Cafwyd trafodaeth ymhlith yr aelodau ar 4.2, Cronfeydd Preifat, a mynegwyd pryder ynglŷn â defnyddio arian o'r cronfeydd preifat i gefnogi diffyg ariannol y Llyfrgell. Nodwyd bod y Llyfrgell yn cynhyrchu incwm blynyddol ar y cronfeydd hyn, ond nad yw'r Llyfrgell wedi defnyddio llawer o'r cronfeydd hyd yma. Byddai angen bod yn glir mai ar gyfer prosiectau cyfalaf, ac nid costau rhedeg y Llyfrgell o ddydd i ddydd, y byddai'r cronfeydd yn cael eu defnyddio, ac mai yn y tymor byr yn unig. Nodwyd yr adroddiad, ond cadarnhawyd y byddai'r Is-bwyllgor Cynllunio Ariannol yn cyfarfod ar 12 Medi i drafod y risgiau ariannol ymhellach.

4.3 Cyfrifon Blynyddol 2015 – 2016

Diolchodd y Llywydd i Colin John, David Michael a Mererid Jones am baratoi'r cyfrifon blynyddol, ac fe'u cyflwynwyd gan Colin.

Amlygwyd fod sefyllfa'r Cynllun Pensiwn yn fregus oherwydd y newidiadau arfaethedig, a thynnwyd sylw at y ffaith fod dyfodol ariannol y Llyfrgell yn ansicr oherwydd y gostyngiad sylweddol i grant y Llyfrgell gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn peri pryder i'r Aelodau na all y Llyfrgell gwrdd â'i gofynion i'r dyfodol os bydd yn gorfod wynebu toriadau cyllidol pellach.

Nodwyd ei bod yn braf derbyn adroddiad archwilio diamod, a diolchodd Colin i'r staff am eu perfformiad a'u cydweithrediad gyda Swyddfa Archwilio Cymru.

Cytunwyd i newid y geiriad ar dudalen 14, pwynt 4.1, "Fund balances at 31 March 2016 stood at £91.039m", gan fod hyn yn edrych fel petai hyn yn arian yn y banc, ond mewn gwirionedd, cyfeirio mae at asedau sefydlog y Llyfrgell, felly mae angen egluro hyn.

Nododd Hugh Thomas y dylid cofnodi diolch yr Aelodau i Colin am ei wasanaeth clodwiw fel Trysorydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, ac ategwyd hyn gan yr Aelodau.

Cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon.

Adran 5 Adroddiadau o Bwyllgorau

5.1 Cofnodion Drafft Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad a gyfarfu ar 13.06.16

Cyflwynodd y Cadeirydd, Dr Susan Davies gofnodion drafft cyfarfod 13 Mehefin i'r Aelodau, gan ddiolch i Carol Edwards am eu paratoi, ac yng nghyd-destun hyn:

Nodwyd bod Huw Williams ac Iwan Davies bellach wedi ymuno â'r Pwyllgor, a gan hynny ychwanegwyd gryn arbenigedd a phrofiad at gyfansoddiad y pwyllgor.

Cyn medru drafftio fersiwn diwygiedig terfynol o'r Fframwaith Llywodraethiant a'r Rheoliadau, awgrymai'r Pwyllgor ein bod yn aros i dderbyn argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru yn dilyn yr adolygiad llywodraethiant, rhag ofn iddynt argymhell rhai materion perthnasol o bwys.

Ynghylch darparu hyfforddiant ar lywodraethiant a Deddf Elusennau, cytunwyd i aros tan fod Ymddiriedolwyr newydd wedi eu penodi cyn bwrw ymlaen â hyn.

Nodwyd bod dadansoddiad o awdit sgiliau diweddar Aelodau'r Bwrdd bellach wedi ei osod ar wefan yr Aelodau.

Nodwyd ymhellach y byddai dangosyddion cyflawni yn cael eu gosod ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac y byddai'r Pwyllgor yma yn rhoi sylw i rheiny pan fyddant yn hysbys.

5.2 Cofnodion Drafft Pwyllgor Archwilio a gyfarfu ar 04.07.16

Cyflwynodd Colin John gofnodion drafft y Pwyllgor Archwilio a gyfarfu ar 4 Gorffennaf ar ran Roy Evans, y Cadeirydd, oedd yn methu bod yn bresennol.

Nodwyd bod y Llyfrgell yn parhau i ymchwilio i yswiriant indemniad ar gyfer Ymddiriedolwyr, ond nad oedd dim pellach i'w adrodd ar hyn o bryd.

Nodwyd bod y rhaglen ailstrwythuro wedi gadael bylchau mewn sgiliau a capasiti o fewn y Llyfrgell, ond bod cynllun olyniaeth yn cael ei ddrafftio bydd yn edrych ar y bylchau yma, a sut y gall y Llyfrgell lenwi'r rhain at y dyfodol.

Nodwyd fod yr adroddiadau archwiliad canlynol wedi eu derbyn:

- (i) Argymhellion Marchnata a Chyfathrebu
- (ii) Argymhellion Iechyd a Diogelwch
- (iii) Adroddiad Blynyddol Archwiliad mewnol

Nododd Colin fod yr adroddiad Iechyd a Diogelwch yn dangos cynnydd boddhaol, ond un negatiff oedd y ffaith na fyddai'r frigâd dan yn fodlon mynd i mewn i Stac 1 petai tân yn yr ardal yna oherwydd strwythur y stac, ac mae hyn yn bryder i'r Aelodau.

5.3 Cofnodion Drafft Is-bwyllgor Cynllunio Ariannol a gyfarfu ar 07.04.16

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 7 Ebrill gan Colin John.

Nodwyd bod angen drafftio cylch gorchwyl ar gyfer yr Is-bwyllgor a chadarnhau sefydlu'r Pwyllgor yn ffurfiol, ond penderfynwyd aros tan dderbyn argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru cyn bwrw ymlaen, gan ei bod yn bosib y bydd argymhelliad yn yr adroddiad ar ba bwyllgorau y dylid eu sefydlu.

Mi fydd yr Is-bwyllgor yn cyfarfod ym mis Medi i edrych ar yr aelodaeth a chylch gorchwyl, ond prif ffocws y cyfarfod hwnnw fydd y gyllideb.

Adran 6 Busnes y Llywydd a'r Llyfrgellydd

6.1 Busnes y Llywydd

Nododd y Llywydd ei fod wedi bod mewn trafodaethau gydag amryw o sefydliadau addysg uwch ynglŷn â gweithio mewn partneriaeth a ffurfioli'r partneriaethau. Mi fydd Rhodri yn cyflwyno adroddiad i gyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd fydd yn nodi'r partneriaethau a chysylltiadau posibl. Nodwyd y dylai unrhyw un o'r Ymddiriedolwyr sydd â diddordeb yn y maes gysylltu gyda Linda.

6.2 Busnes y Llyfrgellydd

Nododd Linda fod y Llyfrgell wedi cael gwybod ei bod wedi ennill prif wobwr gwirfoddoli ARA (Archives and Records Association), ac estynnodd longyfarchiadau i bawb sydd yn gysylltiedig gyda'r gwaith gwirfoddoli yn y Llyfrgell. Mae trefniadau ar y gweill i dderbyn y wobwr mewn seremoni i'w chynnal yn y Llyfrgell ar 4 Tachwedd. Diolchodd Linda hefyd i Susan Davies am helpu i lunio'r cais.

Tynnodd Linda sylw'r Aelodau at gais arfaethedig sydd yn mynd i gael ei chyflwyno i Gronfa Treftadaeth y Loteri erbyn 4 Awst i dderbyn archif BBC Cymru i'r Llyfrgell. Byddai disgwyl defnyddio arian o gronfeydd preifat y Llyfrgell i'w ariannu'n rhannol, a byddai angen i'r Bwrdd roi ystyriaeth

fanwl a gofalus i hyn ym mis Tachwedd pe bai'r cais yn llwyddo yn y cam cyntaf. Diolchodd Linda i aelodau'r Grŵp Cyflawni a fu'n rhan o Grŵp Llywio'r cais, ac i Huw Evans am ei ddrafftio. Nodwyd y dylid cyflwyno unrhyw sylwadau ar y cais i Linda mor fuan â phosib. Nododd Susan Davies fod angen i'r cais ganolbwyntio ar allbynnau gan mai dyma beth mae'r Loteri yn edrych amdano; cytunodd Linda i anfon y cais at Susan iddi gael bwrw golwg drosto, ond nododd hefyd ei bod yn cyfarfod gyda Richard Bellamy i drafod y cais ymhellach cyn ei gyflwyno.

Roedd yr aelodau'n fodlon iawn i Linda gyflwyno'r cais i'r Gronfa Treftadaeth.

Mae'n bosib y bydd y grŵp fu'n trafod adroddiad Randerson yn cael ei ail-ymgynnull i edrych eto ar faterion ac opsiynau posib. Nododd Linda ei bod yn aelod o'r grŵp, ac mi fydd yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd yn dilyn unrhyw gyfarfod.

Adran 7 Unrhyw fater arall

Gofynnwyd i Carol gylchredeg dyddiadau cyfarfodydd 2017 i'r Aelodau.

Gweithred: Carol i drefnu dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd 2017, a'u cylchredeg i'r Aelodau.

Diolchodd y Llywydd i bawb am eu presenoldeb, gan ddod a'r cyfarfod i ben.